

City & Guilds Diploma in Horse Care Level 2



Yn gwyno

Byddwch yn astudio unedau craidd ac opsiynol megis ymdrin â cheffylau a gofal, bwydo a dyfrio rheolaidd, profiad gwaith, cyflwyniad i wyddor ceffylau a marchogaeth ar y gwastad a thros ffensiau.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rydych eisiau cyfoethogi eich gwybodaeth am ofal ceffylau
- ... Rydych eisiau cyfuniad o ddysgu ymarferol a damcaniaethol
- ... Rydych eisiau gwella eich gwybodaeth am y diwydiant ceffylau

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r cyfle i chi hyfforddi ar gyfer a sefyll arholiadau Cymdeithas Geffylau Prydain (BHS). Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys sgiliau hanfodol fel cyfathrebu a chymhwyso rhif i



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

sicrhau y byddwch yn datblygu sgiliau i symud ymlaen.

Byddwch yn cael budd o'r cyfleusterau ardderchog yn y ganolfan geffylau sy'n ganolfan arholi wedi'i chymeradwyo gan BHS hyd at lefel hyfforddwr canolig - yr unig un yng Nghymru. Mae'n uned gryno, gyda chyfarpar da ar gyfer ceffylau, gan gynnwys iard stabl sy'n lletya hyd at 15 ceffyl i chi eu defnyddio ar gyfer eich sesiynau marchogaeth a sesiynau ymarferol. Mae dau arwyneb modern maint llawn ar gyfer pob tywydd, un ohonynt o dan do, neidiadau sioe, ardal hyfforddi draws gwlad a chaeau pori.

Mae'r ganolfan wedi ei staffio gan dîm profiadol, wedi eu cymhwyso'n dda sy'n eich goruchwyllo a'ch cefnogi wrth ymgymryd â dyletswyddau iard a phrofiad gwaith. Wrth weithio yn iard y coleg bydd eich dealltwriaeth o ofal ceffylau yn ehangu.

Mae'r cwrs yn cael ei asesu trwy asesu ymarferol ac aseiniadau ysgrifenedig i ddangos eich dealltwriaeth. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus byddwch yn ennill:

Cymhwyster Lefel 2 mewn Astudiaethau'r Tir (Gofal Ceffylau)
Cymwysterau cefnogi priodol i ehangu eich set sgiliau ac ateb anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, bydd angen isafswm o 4 TGAU gradd D neu uwch i gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol i gynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae angen ymrwymiad llawn at bresenoldeb. Parch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc a hunangymhelliad ynghyd ag angerdd at astudiaethau ceffyl yw'r rhinweddau hanfodol y disgwylwch weld yn ein holl ddysgwyr.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaol ac mae disgwyl y byddwch yn parhau â'ch astudiaethau a gwaith cwrs/lleoliad gwaith yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheoli Ceffylau, cymhwyster BHS lefel uwch neu gyflogaeth yn y diwydiant ceffylau.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Sylwch nad cwrs ymarferol yn unig yw hwn, mae swm o waith ysgrifenedig wedi ei gynnwys.

Bydda angen chwistrelliad tetanws cyfredol arnoch chi cyn dechrau'r cwrs.

Bydd angen cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer agweddau ymarferol y rhaglen gan gynnwys esgidiau marchogaeth, clôs pen-glin a het farchogaeth i'r safonau diogelwch cyfredol. Bydd angen i chi brynu'r rhain cyn i'r cwrs ddechrau.

Bydd arholiadau BHS yn gost ychwanegol y mae angen aelodaeth BHS amdani hefyd.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

